# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Garnant House LLP**

**75 Cwmamman Road**
**Garnant**
**Rhydaman**
**SA18 1ND**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

20/04/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Garnant House LLP

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Garnant House LLP |
| Lleoedd cofrestredig | 21 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 25/01/2022 |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu ‘Cynnig Rhagweithiol’ ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r gweithwyr gofal yn adnabod y bobl yn dda, yn rhyngweithio â nhw mewn ffordd garedig a gofalgar ac yn rhoi cymorth priodol. Mae'r bobl yn gwneud y pethau sy'n bwysig iddynt. Anogir pob person i leisio barn ac i fynychu cyfarfodydd i drafod unrhyw faterion sy'n effeithio arno. Mae'r cofnodion gofal yn disgrifio’n glir sut y dylai'r gweithwyr gofal ddiwallu anghenion unigol y bobl. Mae'r cartref yn cadw pob person yn ddiogel gan ddefnyddio mesurau rheoli heintiau cadarn.

Mae'r tîm rheoli yn bwrw ati'n barhaus i ddatblygu'r gofal a'r cymorth a gaiff y bobl lle bynnag y bo'n bosibl. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld yn rheolaidd i siarad â'r bobl sy'n byw yn y cartref, eu perthnasau, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill a'r gweithwyr gofal i gael adborth ar y gwasanaeth. Mae dogfennaeth gofal y bobl o safon uchel iawn, a dywed y gweithwyr gofal eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y rheolwr a’u bod yn cael sesiynau goruchwylio unigol rheolaidd i drafod eu gwaith. Mae amrywiaeth o hyfforddiant staff ar gael er mwyn helpu'r gweithwyr gofal i gefnogi'r bobl yn ddiogel ac yn effeithiol.

## Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd a gwelsom y gweithwyr gofal yn treulio amser gyda'r bobl er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn deall y cymorth y maent yn ei gael. Yn ogystal, mae gwasanaethau eirioli annibynnol ar gael i unrhyw un eu defnyddio os bydd eu hangen. Mae'r cynlluniau personol yn fanwl ac yn cynnwys dewisiadau personol a chefndir teuluol er mwyn nodi beth sy'n bwysig i'r bobl. Maent hefyd ar gael yn newis iaith y bobl ac mewn fformatau sy'n hawdd iddynt eu darllen.

Mae'r bobl yn gallu ymlacio, yn gyfforddus ac yn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Mae'r gweithwyr gofal yn annog ac yn cefnogi'r bobl i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am sut i dreulio eu hamser. Mae'r bobl yn gwneud pethau sy'n bwysig iddynt. Anogir pob person i bersonoli ei amgylchedd fel y mynna.

Mae'r bobl yn teimlo'n ddiogel ac yn gyfforddus ac maent yn gallu ymlacio yn y cartref. Maent yn gwybod sut i wneud cwyn pe bai angen iddynt wneud hynny ac maent yn hyderus y byddai'r rheolwr yn gwrando arnynt pe byddent yn gwneud cwyn. Mae'r gweithwyr gofal yn rhyngweithio â'r bobl ac yn eu cefnogi mewn ffyrdd cadarnhaol, gyda sgyrsiau llawn hiwmor. Mae'r uwch-aelodau o staff yn diogelu preifatrwydd a gwybodaeth bersonol y bobl. Mae'r gweithwyr gofal yn cael cymorth, arweiniad a hyfforddiant rheolaidd: maent wedi bod yn destun proses recriwtio dda ac mae uwch-aelodau o'r staff yn eu monitro'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y bobl. Mae polisïau a gweithdrefnau ar gael iddynt eu dilyn i'w galluogi i amddiffyn pobl sy'n agored i niwed.

Mae awyrgylch hamddenol yn y cartref yn helpu'r bobl a'u perthnasau i deimlo'n gyfforddus. Mae'n hawdd i'r bobl symud o amgylch yr adeilad er mwyn iddynt ymweld â ffrindiau a chael ymwelwyr fel y mynnont.

## Gofal a Chymorth

Mae gan y bobl gynlluniau cywir a chyfredol sy'n nodi sut mae'r gwasanaeth yn darparu eu cymorth. Mae'r cynlluniau o safon uchel iawn ac yn cael eu haddasu'n unol ag anghenion unigolion fel y gellir eu cynnwys wrth lunio ac adolygu eu cynlluniau. Mae'r darparwr yn ystyried amrywiaeth o wybodaeth er mwyn sicrhau y gall ddiwallu anghenion pob person. Mae system gofnodi fanwl yn darparu cofnod clir o drefniadau cymorth y bobl, ynghyd â'r hyn sy'n bwysig i bob person. Mae'r asesiadau risg a'r cynlluniau personol yn disgrifio ymyriadau iechyd. Mae'r tîm o staff yn adolygu pob dogfen yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod yr holl ddogfennau yn parhau'n gyfredol.

Gwnaethom siarad â'r bobl a ddywedodd, "*The staff are very good and are always so patient with me as I am "a slow boat to China"*. Ac "*I am very happy living here the food is good, and the people are great".*

Caiff iaith a diwylliant y bobl eu parchu. Mae llawer o'r bobl sy'n gweithio ac yn byw yn y gwasanaeth yn siarad Cymraeg a gwneir pob ymdrech i alluogi'r bobl i ddefnyddio'r Gymraeg, sy'n gwneud i'r unigolion deimlo'n gartrefol. Gwelsom y staff yn siarad â'r bobl yn Gymraeg. Mae ieithoedd eraill hefyd yn cael eu cydnabod, ac mae ffeiliau personol wedi cael eu cyfieithu i Arabeg ac Almaeneg yn ogystal â'r Gymraeg.

Gwnaethom siarad ag un perthynas a ddywedodd wrthym *"They have been great with X, they have a great sense of humour which is just like X. They are always happy to help and keep us informed of how things are"*.

Mae polisïau a gweithdrefnau manwl gan y darparwr i reoli'r risg o heintiau. Mae arferion hylendid da ar waith ym mhob rhan o'r cartref a gall y gweithwyr gofal gyfeirio at bolisïau rheoli heintiau lle bo angen. Mae mesurau ar waith i sicrhau bod y cartref yn cadw'r bobl yn ddiogel rhag heintiau, gan gynnwys COVID-19, cyn belled ag y bo modd: mae hyn yn cynnwys defnydd priodol o gyfarpar diogelu personol (PPE) gan bob gweithiwr gofal. Mae'r gwasanaeth yn storio cynhyrchion glanhau yn ddiogel mewn cypyrddau dan glo ac mae nodiadau canllaw ar gyfer defnyddio'r cynhyrchion.

Caiff y bobl eu diogelu rhag esgeulustod a chamdriniaeth. Mae'r cofnodion gofal yn nodi unrhyw risgiau i iechyd a llesiant y bobl yn glir, ac mae'r cynlluniau rheoli risg manwl yn helpu i gadw'r bobl mor ddiogel ac annibynnol â phosibl.

Mae'r gweithwyr gofal yn cydnabod eu cyfrifoldebau personol o ran cadw'r bobl yn ddiogel. Maent yn ymwybodol o'r weithdrefn chwythu'r chwiban ac yn hyderus i'w defnyddio pe bai angen. Byddent yn mynd at unrhyw uwch-aelod o'r staff, ond byddent hefyd yn cysylltu ag asiantaethau allanol fel y swyddfa ddiogelu leol pe byddent o'r farn bod angen iddynt wneud hynny.

## Yr Amgylchedd

Mae'r eiddo yn gartrefol, yn gynnes ac yn lân. Mae'r bobl yn dweud eu bod yn teimlo'n gyfforddus ac yn hapus yn byw yno. Mae ystafell breifat pob person yn ddiogel, yn fawr ac wedi'i phersonoli i adlewyrchu chwaeth a diddordebau'r person, gydag eitemau fel ornamentau, llenni a deunyddiau, lluniau a chelfi. Gall y bobl ddewis treulio amser yn yr ardaloedd cymunedol amrywiol yn ogystal â gerddi'r eiddo.

Mae'r bobl yn ddiogel rhag ymwelwyr heb awdurdod yn dod i mewn i'r adeilad, gan fod yn rhaid i bob ymwelydd ganu cloch drws y ffrynt cyn dod i mewn a chofnodi ei ymweliad yn y llyfr ymwelwyr wrth gyrraedd ac wrth adael. Caiff gwybodaeth bersonol y bobl, ynghyd â chofnodion personél y cyflogeion, eu storio'n ddiogel, a dim ond aelodau awdurdodedig o'r staff all eu gweld.

Mae gweithdrefnau clir ar waith ar gyfer rheoli heintiau. Mae allanfeydd tân yn glir o rwystrau ac mae cofnodion cynnal a chadw yn dangos y caiff profion larwm tân eu cynnal bob wythnos. Caiff yr holl ddeunyddiau COSHH (Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd) eu storio'n gywir, yn unol â Rheoliadau COSHH 2002.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y darparwr weledigaeth glir o'r cymorth y mae'n ei ddarparu, ac agwedd gadarnhaol tuag at bob person. Mae proses dda ar waith gan y rheolwyr i oruchwylio'r gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol mewn cysylltiad rheolaidd â'r gwasanaeth, er mwyn siarad â'r bobl a'r staff. Mae archwiliadau rheolaidd yn monitro pob agwedd ar ofal y bobl, gan gynnwys meddyginiaeth, mesurau rheoli heintiau a chadw cofnodion. Caiff unrhyw fater ei ddatrys mewn modd amserol. Dywedodd y bobl eu bod yn gwybod sut i wneud cwyn pe byddai angen iddynt wneud hynny ac maent yn hyderus y byddai'r darparwr yn gwrando arnynt pe baent yn gwneud hynny.

Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym*:*

- *"I've been here a long time and I can honestly say it's great. The manager and RI are very supportive. Training is excellent, I have been able to do my level 5, and am enrolling on another course at present, they are supportive of developing our skills and progression."*
- *"I've been here over 10 years, so that should show what I think of the home, it is great here, the support is brilliant. I have been able to do many different courses including my QCF level 5 to develop my skills and professional development. a*
- *The manager is brilliant, I can go to her at any point, and get help or advice. The RI is here a lot every week and is really approachable and supportive, he sits with the residents and gets involved. Anything we need is no issue it will be sorted"*.

Mae'r darparwr yn sicrhau bod digon o weithwyr gofal gwybodus a medrus ar gael i ddarparu'r cymorth cywir i'r bobl. Cynhelir gwiriadau cyn cyflogi cyn i weithwyr newydd ddechrau gweithio. Mae'r rhain yn cynnwys gwirio geirdaon, dogfennau adnabod â llun a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae rhaglen sefydlu'r staff yn gysylltiedig â chanlyniadau dysgu unigol a 'Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol'.

Mae'r gweithwyr gofal yn ymgymryd â hyfforddiant penodol sy'n berthnasol i'r bobl y maent yn eu cefnogi, ac mae cyfarfodydd staff yn rhoi cyfle i'r gweithwyr gofal drafod eu gwaith a chael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn y gwasanaeth. Mae gan y gweithwyr gofal ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Mae cofnodion o sesiynau goruchwylio a gynhelir bob tri mis yn dangos y gall pob gweithiwr gofal drafod unrhyw faterion y mae'n awyddus i'w codi, mewn lleoliad ffurfiol, gan wybod y bydd cofnod o'r sgyrsiau. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn nodi pob cam gweithredu sydd ei angen i wella llesiant y bobl mewn adroddiad ar ansawdd y gofal a gaiff ei lunio bob chwe mis.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 27/06/2023